OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 503 (Cy.71)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003

Wedi'u gwneud - -	*4 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2003*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan adran 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**), a pharagraff 9 o Atodlen 1 a pharagraffau 1(4) a 4 o Atodlen 2 iddi, ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) (Diwygio) 2003 a deuant i rym ar 31 Mawrth 2003.

2. Caiff Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001(**3**) eu diwygio fel a ganlyn.

3. Caiff rheoliad 2 ei ddiwygio drwy—

(a) fewnosod y diffiniad canlynol ar ôl y diffiniad o "achos disgyblu" ym mharagraff (1)—

"mae i "asiant" ("*agent*") yr ystyr a roddir gan adran 15A o Ddeddf 1998(**4**);" a

(b) amnewid y geiriau "rheoliad 8" yn lle'r geiriau "rheoliadau 8 a 28" ym mharagraff (5).

4. Diwygir rheoliad 8 drwy—

(a) mewnosod y geiriau "Yn ddarostyngedig i baragraff (1A)" ar ddechrau paragraff (1);

(b) fewnosod y paragraff canlynol ar ôl paragraff (1):

(**1**) 1998 p.30. Mae Adran 6 ac Atodlenni 1 a 2 yn gymwys mewn perthynas â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru trwy rinwedd adrannau 8 a 9 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 a Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 (O.S. 1998/2911) o 30 Rhagfyr 1998 ymlaen yn achos Atodlen 1, a 1 Medi 2000 yn achos gweddill y darpariaethau. Diwygir paragraff 1(4) o Atodlen 2, ac amnewidir paragraff 4 o Atodlen 2, gan baragraff 86(2) o Atodlen 21, a pharagraff 12 o Atodlen 12, i Ddeddf Addysg 2002 (p.32), yn eu trefn. Am ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 43(1).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211 o Ddeddf Addysg 2002.

(**3**) O.S. 2001/1424 (Cy. 99).

(**4**) Mewnosodwyd adran 15A gan baragraff 83 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32)

"(1A) Rhaid i Bwyllgor sy'n delio ag achos yn erbyn person sy'n aelod o'r Cyngor gynnwys un neu fwy aelod lleyg ac un neu fwy aelod sy'n athro neu'n athrawes gofrestredig, ond ni ddylai gynnwys aelod o'r Cyngor.";

(c) mewnosod y geiriau "Yn ddarostyngedig i baragraff (3A)" ar ddechrau paragraff (3); a

(ch) mewnosod y paragraff canlynol ar ôl paragraff (3):

"(3A) Y cworwm ar gyfer cyfarfod o Bwyllgor sy'n delio ag achos yn erbyn person sy'n aelod o'r Cyngor fydd tri aelod, gan gynnwys un aelod lleyg ac un aelod sy'n athro neu'n athrawes gofrestredig.".

5. Diwygir rheoliad 9 drwy—

(a) amnewid y paragraff canlynol yn lle paragraff (1)(b)—

"(b) bod y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno ystyried yr achos gyda'r bwriad o arfer ei bwerau o dan adran 142 o Ddeddf Addysg 2002(**5**)—

(i) ar y seiliau bod person yn anaddas i weithio â phlant, neu

(ii) ar seiliau sy'n ymwneud â chamymddygiad neu iechyd person,

oherwydd bod y Cynulliad Cenedlaethol neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried bod yr achos yn ymwneud â diogelwch a lles person dan 18 oed."; a

(b) amnewid y geiriau "rheoliad 5 neu 7 o Reoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003(**6**)" yn lle'r geiriau "rheoliad 28" ym mharagraff (2) (b).

6. Diwygir Rheoliad 18 drwy—

(a) amnewid y paragraff canlynol yn lle paragraff (3)—

"(3) Rhaid i orchymyn atal, yn ychwanegol at yr eitemau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1), bennu—

(a) unrhyw amodau y dylai'r athro neu'r athrawes gydymffurfio â hwy cyn y gall fod yn gymwys unwaith eto ar gyfer cofrestru; a

(b) y cyfnod (nad yw'n fwy na dwy flynedd) pan ddaw'r athro neu'r athrawes unwaith eto yn gymwys ar gyfer cofrestru ar ei ddiwedd (yn ddarostyngedig i gydymffurfio ag unrhyw amodau)";

(b) ym mharagraff (6) hepgor yr "a" ar ddiwedd is-baragraff (a)(v) a mewnosod y canlynol ar ei ôl—

"(va) os gorchymyn atal sy'n pennu amodau yw'r gorchymyn, esboniad o hawl y person i wneud cais am amrywio neu ddiddymu amod a bennwyd yn y gorchymyn a'r dull ar gyfer gwneud cais o'r fath, a"; ac

(c) mewnosod ym mharagraff (6)(b) ar ôl y geiriau "gyflogwr presennol neu ddiwethaf" y geiriau "a, lle bo hynny'n berthnasol, asiant".

7. Ar ôl rheoliad 21 mewnosodir y rheoliad canlynol—

"**Cais i amrywio neu neilltuo amod mewn gorchymyn atal**

21A.—(1) Gall person y mae gorchymyn atal wedi'i wneud mewn perthynas ag ef wneud cais i'r Cyngor i amrywio neu ddiddymu unrhyw amod a bennir yn y gorchymyn.

(**5**) 2002 p.32.
(**6**) O.S. 2003/542 (Cy6).